



SWYDD:	Swyddog Datblygu Cymunedol Menter Iaith Casnewydd
LLEOLIAD:	Swyddfa Menter Iaith Casnewydd, Llawr D, Prifysgol De Cymru, Usk Way, Casnewydd, NP20 2BP - (gweithio gartref yn ystod COVID-19)
ORIAU GWAITH:	37.5 awr yr wythnos
CYFLOG:	£21,074- £23,111
GWYLIAU:	24 diwrnod o wyliau ar ben Gwyliau Banc statudol

Mae Menter Iaith Casnewydd yn gwmni cymunedol elusennol sy'n bodoli i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac sydd â'r nod o gyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol, cefnogi rhwydweithiau cymdeithasol y Gymraeg a chynyddu statws y Gymraeg ym mhob sector o fewn Dinas a Sir Casnewydd.

Cefndir

Nod y Mentrau Iaith yw hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru. Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, ac erbyn hyn mae 22 Menter Iaith yn gwasanaethu pob rhan o Gymru. Wedi tyfu o awydd a dyheadau pobl leol y mae'r Mentrau Iaith, er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn eu cymunedau. Deng mlynedd yn ôl daeth pobl Casnewydd ynghyd i sefydlu ein Menter ni.

Gallwch chi ein cynorthwyo i wneud gwahaniaeth i drigolion y ddinas hon?

Beth fyddwch yn ei wneud?

Gwaith Swyddog Datblygu Cymunedol Menter Iaith Casnewydd yw datblygu a chryfhau cynnig a gwasanaethau'r Fenter i gymunedau Casnewydd a chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith o fewn cymunedau Casnewydd. Prif ddyletswyddau'r rôl yw llunio, cydlynu a gweithredu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau amrywiol a chynhwysfawr i bobl o bob oed ar hyd a lled sir Dinas Casnewydd er mwyn iddynt gael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ogystal byddwch yn codi proffil yr iaith yn gyffredinol a'i defnydd ar draws y ddinas mewn nifer o feysydd. Bydd yr unigolyn delfrydol yn gallu datblygu syniadau newydd ac arloesol i barhau i adeiladu a datblygu darpariaeth a rhaglenni presennol y Fenter. Chwiliwn am berson egniol a brwdfrydig sydd yn gallu gweithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm yn effeithiol. Byddwch yn gallu cysylltu'n hyderus gydag ystod o bobl ac yn awyddus ac yn barod i ddysgu pethau newydd ar hyd y ffordd hefyd.

Gwaith Menter Iaith Casnewydd

Mae'r Mentrau Iaith yn un o bartneriaid allweddol Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu ar lawr gwlad i wireddu amcanion **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** – sydd yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae pob Menter Iaith yn gweithredu mewn ffordd unigryw yn ddibynnol ar anghenion lleol.

Ein prif feysydd gwaith yw:

Teuluoedd: Mae ein gweithgareddau a phrosiectau yn annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref, tynnu sylw at fanteision dewis Addysg Gymraeg, ac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal a chwarae.

Plant a Phobl Ifanc: Rydym yn gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth hamdden a chymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol tu allan i'r ysgol.

Y Gymuned: Trwy gydweithio â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu cymunedau eu hunain rydym yn gweithio i gryfhau'r iaith fel iaith gymunedol, naturiol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Cydweithio â Phrif Swyddog y Fenter, ag eraill er mwyn hyrwyddo gwaith y Fenter a'r Gymraeg o fewn Dinas a Sir Casnewydd.
- Trefnu, arwain, cynnal a rhedeg gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer ystod eang o'r gymuned o bob oed (plant ac oedolion), a chefnidir.
- Asesu ag adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol.
- Meithrin a datblygu cysylltiadau agos gyda grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol a phartneriaid eraill (e.e Cymraeg i Oedolion Gwent, Mudiad Meithrin) gan gydlynu a threfnu gweithgareddau blaengar a deniadol ar y cyd a'u gwerthuso'n gyson.
- Trefnu, arwain, cynnal, rhedeg a chydlynu digwyddiadau cymdeithasol yn annibynnol a chydweithio ag amrywiaeth o gyrff i gynnal digwyddiadau ar y cyd.
- Ymchwilio i brosiectau celfyddydol.
- Ymchwilio i ddi-ddordebau ac anghenion trigolion y Sir.
- Ymchwilio i ffynonellau cyllid er mwyn ariannu digwyddiadau.
- Cyfrannu at brosesau gwerthuso a monitro'r Fenter.
- Cynorthwyo gyda chydlynu Fforwm Iaith Casnewydd.
- Cynrychioli'r Fenter ar bwyllgorau lleol a rhanbarthol
- Cynorthwyo gyda marchnata gwaith y Fenter drwy amrywiol ddulliau
- Cynorthwyo gyda thasgau gweinyddol
- Cyfrannu at weithio mewn swyddfa effeithiol
- Cefnogi yn y gwaith o gynnal Clybiau Gofal ar ôl Ysgol
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl y galw

Cyflawni'r Swydd

Bydd y Swyddog yn atebol i Brif Swyddog Menter Iaith Casnewydd yn ogystal â Bwrdd Rheoli'r Fenter.

Bydd gofyn gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ogystal â theithio i weithgareddau/digwyddiadau, cyfarfodydd ac i ymweld â mudiadau eraill.

Bydd y Swyddog yn ymwybodol o iechyd a diogelwch ei hunan ac eraill ac yn ymrwymo i ddilyn polisiau a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch y Fenter yn ogystal ag ystod o bolisiau eraill y Fenter.

Mae Menter Iaith Casnewydd yn gweithredu Polisi Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â deilydd y swydd a'r bobl y bydd y Swyddog mewn cyswllt â hwy a sut y bydd yn cyflawni'r gwaith.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus i gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS).

Mi fydd yna gyfnod prawf o 3 mis i'r ymgeisydd llwyddiannus.

Manyleb Person	Hanfodol neu'n Ddymunol
Profiad o weithio a / neu wirfoddoli	
• trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.	H
• gan ddefnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth ac amrywiaeth o lwyfannau digidol i gyfathrebu / creu cynnwys	H
• gyda phlant, teuluoedd a phobol ifanc	H
• mewn cyd-destun datblygu cymunedol a chynllunio iaith	D
• gydag agwedd o farchnata digidol yn rhan o'r dyletswyddau	D
• gydag agwedd o drefnu digwyddiadau neu wasanaethau yn rhan o'r dyletswyddau	D
• gydag agwedd o fonitro a gwerthuso prosiectau'n rhan o'r dyletswyddau	D
• gydag agwedd o weinyddu'n rhan o'r dyletswyddau	D
Sgiliau a Chymwyseddau	
Sgiliau llafar ac ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg o safon uchel iawn.	H
Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da ar lafar ac yn ysgrifenedig.	H
Y gallu i weithredu'n annibynnol gan ddatblygu syniadau heb arolygaeth sylweddol	H
Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu o safon uchel a'r gallu i weithio gyda thrawstoriad eang o bobl.	H
Sgiliau trefnu o safon uchel.	H
Y gallu i weithio fel rhan o dîm.	H
Y gallu i gynllunio a chydlynu prosiectau.	D
Gwybodaeth a Deallusrwydd	
Hyderus wrth ddefnyddio'r we, e-bost a chyfryngau cymdeithasol.	H
Yn ymwybodol o Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg	H
Dealltwriaeth o gyd-destun y Gymraeg o fewn cymunedau'r De Ddwyrain.	H
Dealltwriaeth dda o brosesu geiriau, mantolen, bas data, cyflwyniadau.	H
Dealltwriaeth o waith y Mentrau Iaith a'r partneriaid sy'n ymwneud â maes hyrwyddo'r Gymraeg	D
Addysg a Hyfforddiant	
Trwydded yrru lawn a defnydd o drafnidiaeth eich hun.	H
Tystiolaeth o lwybr addysg berthnasol	H
Parodrwydd i ddilyn unrhyw hyfforddiant perthnasol ac angenrheidiol.	H

Mae'n bwysig nodi bod natur y swydd hon yn gorfod bod yn hyblyg a'r dyletswyddau'n gallu amrywio heb i'r cyfrifoldebau na chymeriad cyffredinol y dyletswyddau newid. Bydd gofyn i chi ymgymryd â gwaith amrywiol er mwyn cyfarfod ag anghenion a gofynion y gymuned sy'n newid yn barhaus. Bydd yr hyblygrwydd yma'n galluogi'ch profiad a'ch sgiliau i gryfhau a datblygu er eich lles chi, ein lles ni a'r gymuned a bydd hunan-ysgogiad yn allweddol at lwyddiant y swydd.

Swydd barhaol llawn amser (yn ddibynnol ar gyllid ac adnoddau) yw hon. Ariennir y swydd gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Medi 2021, gyda'r posibilid o ymestyn y cytundeb yn ddibynnol ar gyllid pellach ar gyfer 2021 / 2022.

Beth am edrych ar ein gwefan i gael blas o'n gwaith yn www.mentercasnewydd.cymru

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais!

Os hoffech sgwrs i gael manylion pellach am y swydd yna mae croeso i chi drefnu hyn gyda'r Prif Swyddog, Dafydd Henry, trwy e-bostio Dafydd@mentercasnewydd.cymru i drefnu amser cyfleus.

Sut i wneud cais:

Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd erbyn **canol nos ar Ddydd Sul y 9fed o Fai 2021** at Dafydd@mentercasnewydd.cymru